Dŵr Cymru
Welsh Water

Heol Pentwyn
Nelson
Treharris
Morgannwg Ganol
CF46 6LY

Ffôn: +44 (0)1443 452300
Ffacs: +44 (0)1443 452323
Safle gwe: www.dwrcymru.com

Dyddiad: 21 Mehefin 2010
Ymholiadau, cysylltwch â:
0800 0520130
Rhif cyfeirnod: 17970162

Annwyl Gwsmer

Par: Newidiadau i'r rhwydwaith dŵr yn eich ardall

Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn cadw golwg yn barhaus ar eu sefyllfa adnoddau dŵr er mwyn sicrhau bod cyflenwadau i'n cwsmeriaid yn cael eu cyflawni bob amser. Mae eleni wedi gweld tywydd sych iawn, a gyda darogan bod yna haf poeth a sych o'n blaenau, 'rydym yn ysgrifennu atoch chi i gynghori ynglŷn â rhai o fesurau cynnar 'rydym yn eu cymryd i ddiogelu'ch cyflenwad dŵr.

Er mwyn sicrhau parhad di-dor y dŵr a gyflenwir i chi yn ystod yr haf, fe fyddwn yn dod â dŵr i mewn i'r ardal o'n cronfa ddŵr yn Llandegfedd, ger Pont-y-pŵl yn lle dwr o gronfa Talybont. Fe fydd y newid yn digwydd dros y pythefnos nesaf a gallaf eich sicrhau byddwn yn gwneud popeth i leihau unrhyw anhwylustod gymaint â phosibl.

Tra bod y gwaith hanfodol hwn yn cael ei wneud, fe allech, fodd bynnag, sylwi bod yna afliwiad dros dro yn eich cyflenwad dŵr oherwydd newidiadau yn y llif yn y pibellau. Bydd popeth yn cael ei wneud i geisio lleihau hyn gymaint â phosibl, ond os bydd yna afliwio yn digwydd, efallai y bydd arnom angen gwneud rhywfaint o waith llifolchi (fflysio) lleol ar y pibellau dŵr er mwyn clirio'r broblem. Os ydych yn profi afliwiad yn y dŵr, a fyddech cystal ag agor tap dŵr oer (fel arfer, eich tap cegin) tan y bydd y broblem yn clirio, a pheidiwch â defnyddio dŵr mewn peiriannau golchi oherwydd gall y dŵr achosi staenau a rai dillad.

Gallwch hefyd sylwi ar rywfaint o amrywiad ym mlas a chaledwch y dŵr yn dilyn newid y ffynhonnell, nid yw hyn yn golygu unrhyw ddirywiad mewn ansawdd y dŵr.

Tra ein bod yn cwblhau'r gwaith hwn, ni fyddai arnom angen fel rheol cael mynediad i'ch eiddo. Os, fodd bynnag, bydd arnom angen mynediad, yna gofynnwch, os gwelwch yn dda, am gael gweld cerdyn adnabod (ID) yr unigolyn cyn caniatáu iddo gael mynediad. Os oes gennych bryderon, neu os yw galwr yn dangos cerdyn adnabod ac yr hoffech wirio pwy ydynt, a fyddech cystal â ffonio'n Llinell Gymorth Galwyr Ffug ar 0800 281 141 - mae llinellau yn agored bedair awr ar hugain y dydd, saith niwrnod yr wythnos.

'Rydym yn ymddiheuro am unrhyw anhwylustod dros dro y gall y gwaith angenrheidiol hwn ei achosi. Os byddwch angen mwy o wybodaeth, ffoniwch ni ar 0800 052 0130. Mae'r rhif hwn ar gael 24 awr y dydd. Neu fe ellir canfod rhagor o wybodaeth yn darparu cynghorion defnyddiol ynglŷn â sut y gallwch chi leihau gwastraff dŵr yn ac o amgylch y cartref ar ein gwefan yn www.dwrcymru.com.

Yr eiddoch yn gywir

Ceris Van de Vyver
Rheolwr Yr Uned Ddosbarthu

glas
Glas Cymru Cyfyngedig

Mae Dŵr Cymru yn eiddo i Glas Cymru - cwmni 'nid-er-elw'.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf, cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yng Nghymru rhif 2366777. Swyddfa gofrestredig: Heol Pentwyn, Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol CF46 6LY.

Pontypool
Mamhilad
Old Furnace
Old Penygarn
Pantygasseg
Pontnewydd
Tranch
Wainfelin
Abersychan
Cwmoody
Penygarn
Trevethin
Cwmfeilds
Cwmnyscoy
Griffithstown
Lower Race
Penyrheol
Pontymoile
Upper Race
Blaenavon
Gardiffaith
Taylwain
Cwmavon
New Inn
Varteg